



**Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru -
Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant
ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal:
Canllawiau Ymarfer**

**BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN
CYMRU**

Fersiwn	Dyddiad Addasu	Perchennog	Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad Adolygu
V1	24/01/2024	Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru	24/01/2023	

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer



Enw'r Polisi / Gweithdrefn / Canllawiau	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer
Cyfnod Ymgynghori	26/10/2022 – 25/11/2022
Dyddiad Cyhoeddi	
Dyddiad Adolygu	

Lledaenu/ Gweithredu

Gofynnir i asiantaethau ymgymryd â'r canlynol er mwyn sicrhau bod y Polisi/Gweithdrefn/Canllawiau hyn yn cael eu gweithredu

	- Gosod ar wefan MAWWSB yn yr adran bolisi - Anfon at Asiantaethau Partner i'w lledaenu - Lledaenu i arweinwyr hyfforddi mewn asiantaethau partner i'w cynnwys mewn hyfforddiant fel sy'n briodol - Diweddarau hyfforddiant perthnasol i adlewyrchu'r Polisi/Gweithdrefn/Canllawiau
Pob Asiantaeth Bartner	- Lledaenu'r Polisi/Gweithdrefn/Canllawiau i bob Arweinydd Gwasanaeth/Pennaeth Gwasanaeth/Arweinwyr Diogelu/staff trwy sianeli cyfathrebu priodol e.e. LOGs - Gosod o fewn ei gwefan ei hun a chynnwys dolen i Wefan MAWWSB https://www.cysur.wales/ - Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau mewnol i adlewyrchu'r Polisi/Gweithdrefn/Canllawiau fel sy'n briodol. - Diweddarau hyfforddiant mewnol i adlewyrchu'r broses fel sy'n briodol.

Sicrwydd

Gofynnir i asiantaethau ymgymryd â'r canlynol er mwyn rhoi sicrwydd i MAWWSB o ran lledaenu a gweithredu'r polisi hwn:

MAWWSB	Ceisio sicrwydd gan Asiantaethau Partner bod y gweithredu wedi digwydd
Asiantaethau Partner	Rhoi sicrwydd i MAWWSB bod y gweithredu uchod wedi'i gwblhau

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r broses o droseddu diangen gan blant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o'r gofal: Canllawiau Ymarfer 2023



***Reducing the unnecessary criminalisation of
care experienced Children and young adults***

Cyflwyniad

Mae canllawiau ymarfer Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi'u llunio i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd ym '[Mhrotocol Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau troseddu gan blant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal](#)', gan ddarparu canllawiau gweithredol clir i ddarparwyr preswyl ac asiantaethau o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Roedd protocol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, wedi'i anelu at amrywiol asiantaethau gan gynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau'r heddlu, y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaeth Erynn y Goron a llawer mwy sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth i blant mewn gofal.

Mae'r ymarfer hwn i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ceisio lleihau troseddu diangen gan blant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal, mewn modd moesegol a chymesur. Mae'r canllawiau ymarfer yn adeiladu ar argymhellion a nodwyd yn Adolygiad yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, a ysgrifennwyd gan yr Arglwydd Laming, 'In care, out of trouble'. Fe'i datblygwyd gan gyfeirio at y canllawiau cenedlaethol diweddaraf a'r ymarfer effeithiol ynghylch dargyfeirio. Mae llofnodwyr o'r holl asiantaethau dan sylw wedi'u dogfennu ar ddiwedd y ddogfen.

Ers 2008, mae plant sy'n mynd i'r ddalfa wedi gostwng yn sylweddol. Mae'r dirywiad wedi'i gysylltu â lleihau costau realistig yn ogystal â thwf sylweddol mewn mesurau dargyfeirio. Mae nifer y plant sy'n cael eu categoreiddio fel rhai sy'n derbyn gofal yn parhau'n sylweddol uchel yn y system cyfiawnder ieuenctid o'i gymharu â phlant sydd ddim yn derbyn gofal. Yn y flwyddyn 2018, roedd gan 68% o blant yn y ddalfa ac a oedd yn derbyn dedfrydau troseddol yn y DU, hanes o fod mewn gofal. Felly, prif gymhelliad y canllawiau ymarfer hyn yw annog a darparu'r fframwaith i'r asiantaethau hyn weithio ar y cyd a chreu trefniadau lleol i leihau'r cofnodion uchel hyn a throseddu diangen. Mae protocol Llywodraeth Cymru 2022 yn nodi beth mae asiantaethau angen ei wneud i sicrhau bod plant mewn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn cael eu cadw rhag y system cyfiawnder troseddol lle bo modd drwy strategaethau amgen. Amcan yr awdurdod lleol wedyn yw gweithredu eu hymatebion ac egluro'u gweithredoedd ar sut y bydd yn cael ei gyflawni'n weithredol.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Mae'r bartneriaeth gydweithredol leol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn cydnabod y gall plant gael eu hecsbloetio'n droseddol ar adegau, a gellir cynnal eu hanghenion drwy ddull sy'n ceisio mynd i'r afael â hyn, sy'n gallu cynnwys nifer o asiantaethau. Gall ymateb anghywir i ymddygiad sy'n heriol gyfrannu at fethiant lleoliadau a gall fod yn gysylltiedig â drifftio i isddiwylliannau troseddol a manteisiol ledled y rhanbarth. Mae hyn yn effeithio'n negyddol nid yn unig y posibilrwydd o leoliadau yn parhau i fod yn ddiogel ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol, ond hefyd uchelgeisiau dyfodol a hirdymor y rhai sy'n gadael gofal sydd hefyd yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol.


Yr amcangyfrif oedd bod y rhai sy'n gadael gofal yn ffurfio 27% o boblogaeth carchardai oedolion a 25% o boblogaeth ddigartref Cymru.

Mae'n bwysig nodi bod tystiolaeth yn dangos nad yw sancsiynau cosbol iawn yn cael fawr o effaith ar y duedd i aildroseddu.

Yn ystod cipolwg o ddata a gymerwyd ar 1 Chwefror 2021 yn ymwneud â 1287 o achosion wedi'u rheoli gan Wasanaethau Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru, roedd yn amlwg bod gan 271 (21%) o'r achosion hynny statws plentyn â phrofiad o ofal, gyda 208 yn ddynion, 61 yn fenywod a 2 yn cael eu hadnabod fel arall.

O'r 271 hynny, roedd (41%) wedi troseddu tra oedden nhw mewn gofal.

Mae ystod oedran y troseddu hynny rhwng 9-19 oed, ond mae ar ei uchaf rhwng 15-17 oed. Mae anghyfartaledd amlwg rhwng dynion a menywod, gyda dynion yr uchaf ar draws yr ystod oedran.



Math o leoliad:

- ❖ 47% Cartref Preswyl
- ❖ 23% gyda theulu
- ❖ 21% Lleoliad Maeth
- ❖ 6% Lleoliad arbenigol
- ❖ 3% Lleoliad Diogel (4 o'r 8 yn Ddiogel o ran Troseddau)

Dangosodd dadansoddiad o'r data hwn fod:

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

- Rheolwyr YOT wedi nodi cysylltiad cryf mewn ymddygiadau sy'n seiliedig ar drawma o blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n troseddu.
- Ystod eithaf eang o % CEC ar draws Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid (10% - 41%) ac ar draws y Rhanbarthau (17% - 24%).
- Mae oedran yn amrywio o 9 oed i 19 oed.
- Mater o ran rhyw - canran uchel o ddynion.
- Brigau oedran – brigo yn 17 oed.
- Mannau problemus – Trais ar ei uchaf yn ne Cymru.
- *Math o Drosedd fwyaf cyffredin – Trais mewn dynion a menywod, ond yn sylweddol uwch mewn gwrywod.
- Roedd y ffigyrau troseddu uchaf a gofnodwyd yn y cipolwg gan y rhai a fu neu sydd mewn gofal preswyl ar hyn o bryd.
- Y categorïau gwaredu uchaf yw Llys a Gorchymyn Cymunedol.
- Mae gwarediadau Gorchymynion Cymunedol yn brigo ar 17 oed ac mae gwarediadau tu allan i'r llys yn brigo yn 15 oed.
- Mae'r ffigyrau uchaf o waredu llys a Gorchymyn Cymunedol yn dod o'r rhai o fewn lleoliadau Preswyl.
- Roedd 8 plentyn oedd yn derbyn gofal o fewn y cyfiri wedi dod o'r tu allan i'r wlad ond roedden nhw wedi cael eu rhoi mewn lleoliadau Cymraeg adeg casglu data.

Amcanion

Ymhlith llofnodwyr Canllawiau Ymarfer Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru mae'r pedwar awdurdod lleol a byrddau lechyd sy'n cwmpasu: Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys, gyda phob un yn gyfrifol am gontractio a sicrhau rheolaeth gywir o ddarparwyr preswyl o fewn y rhanbarth.

Heddlu Dyfed-Powys sy'n gyfrifol am gefnogi asiantaethau a gweithredu'r canllawiau gweithredol sy'n gysylltiedig â'r canllawiau ymarfer hyn. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru yn gweithredu fel yr asiantaeth erlyn o fewn y rhanbarth, gan ardystio i gymhwysiad cywir o ddeddfwriaeth a sicrhau canlyniadau priodol i'r bobl ifanc hynny sydd yn y system cyfiawnder ieuencid.

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn atebol am ddarparu gwasanaeth teg a gwrthrychol i bobl ifanc o fewn ardal Dyfed-Powys, gan sicrhau bod mesurau ataliol yn eu lle yn ogystal ag ymyriadau i atal troseddu pellach.

Mae'r holl asiantaethau yn atebol am gyflwyno'r canllawiau ymarfer gan gynnwys dwysau lle bo angen. Mae gan y canllawiau ymarfer hyn hefyd gefnogaeth partneriaid strategol allweddol

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

eraill, gan gynnwys Gwasanaeth Prawf EM, Comisiynydd Plant Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys.

Amcanion y canllawiau ymarfer yw:

- Lleihau'r troseddu diangen gan blant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Annog a chynyddu'r defnydd o ddulliau cyfiawnder adferol o reoli ymddygiad o fewn y cartrefi gofal i blant.
- Ategu hyn a chryfhau'r ymdrech amlasiantaeth i leihau troseddu gan blant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal.
- Cael cydbwysedd rhwng hawliau, cyfrifoldebau ac anghenion y person ifanc a hawliau, cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, a dyletswyddau awdurdodau lleol a staff gofal. Mae hyn hefyd yn cynnwys penderfyniadau ynghylch a yw cyfraniad yr Heddlu y ffordd fwyaf priodol o weithredu.
- Sicrhau bod hawliau ac anghenion dioddefwyr yn cael sylw dyladwy mewn unrhyw broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r plentyn sy'n troseddu.

Egwyddorion Allweddol

Dyletswydd pob ymarferydd neu reolwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yw ymdrechu bob amser i ddeall achosion sylfaenol ymddygiad person ifanc. Dylai deall rhesymeg gweithredoedd y plentyn, gan gynnwys ei anghenion a'i ganfyddiadau, fod wrth wraidd unrhyw ddigwyddiad a'r broses o wneud penderfyniadau dilynol. Dylai gwrandao ar eu lleisiau fod yn flaenllaw yn yr ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â phlant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Yn aml mae gan ofal plant ac oedolion ifanc sawl anfantais sy'n dwysáu eu bregusrwydd ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o 'gyswllt' â'r system gyfiawnder. Efallai nad yw'r plant a'r oedolion ifanc hyn yn gwybod bod ganddynt anawsterau niwroddatblygiadol neu efallai y byddent yn cuddio'r heriau sydd ganddynt, gan eu harddangos drwy ymddygiadau a gweithredoedd negyddol fel eu hunig fodd o gyfathrebu eu hanghenion. Rydym yn symud i'r term niwroamrywiaeth i gofleidio'r gwahaniaethau hyn ac mae'r canllawiau ymarfer hyn yn cydnabod yr anfantaision ac felly'r amlygiad mwyaf y mae plant gofal yn eu cael o fewn y system gyfiawnder. Bydd pob adran Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol yn manteisio ar y Grant Amddifadedd Disgyblion, sy'n eu cefnogi i sefydlu gwasanaethau penodol sy'n ymroddedig i blant yn eu gofal, er enghraifft, ymgorffori Cydlynwyr Addysg Plant Gofal.

Un o brif egwyddorion y canllawiau ymarfer hyn yw sicrhau y bydd asiantaethau cyfiawnder troseddol (a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio y tu allan i wasanaethau plant) yn ymwybodol o, ac yn sensitif i, fregusrwydd ac anfantaision cymdeithasol amlhaenog plant gofal. Mae gan bob plentyn mewn gofal gynllun gofal sy'n nodi sut y bydd gweithwyr proffesiynol amlasiantaethol yn diwallu eu hanghenion.

Dylid creu pob cryfder er mwyn osgoi'r broses o droseddu diangen gan blant gofal. Cydnabyddir bod llawer o blant gofal wedi dioddef camdriniaeth a thrawma, gan darfu ar eu haeddfedrwydd emosiynol ac ymddygiadol, gan eu gwneud, mewn theori, yn arbennig o agored i ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Yn aml, mae plant gofal yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, yn rhywbeth sydd allan o'u rheolaeth, gan eu bod yn aml yn gallu cael eu hecsbloetio'n droseddol. Gall troseddu fod yn rhwystr i drosglwyddo'n bositif i fod yn oedolyn a rhagolygon bywyd yn y dyfodol.

Os yw trosedd wedi digwydd, hawl dioddefwr yw cael y drosedd honno wedi'i chofnodi yn unol â Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol. Bydd pob trosedd yn cael ei gydnabod a'i gofnodi'n gywir gan Heddlu Dyfed Powys. Er mwyn efelychu hyn o fewn lleoliad gofal, dylid cydnabod pob digwyddiad a'i gofnodi'n briodol.

Mae achosion troseddu yn aml y tu hwnt i gyrraedd un asiantaeth yn unig. Dylai dull 'sy'n canolbwyntio ar blant' gael ei fabwysiadu bob amser gan bob gweithiwr proffesiynol, gan ddarparu ymateb integredig, cyson a rhagweithiol er mwyn atal, mynd i'r afael a datrys ymddygiad heriol.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Bydd dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cynnwys pob sefydliad:

- Blaenoriaethu buddiannau gorau plant, cydnabod eu hanghenion, eu gallu, eu hawliau a'u potensial unigol. Bydd pob penderfyniad yn canolbwyntio'n llwyr ar blant, yn hyddysg yn ddatblygiadol, yn cydnabod rhwystrau strwythurol ac yn bodloni ein cyfrifoldeb craidd tuag at blant.
- Hyrwyddo cryfderau a chapasiti unigol plant i ddatblygu eu hunaniaeth rag-gymdeithasol ar gyfer ymataliad cynaliadwy, gan arwain at gymunedau mwy diogel a llai o ddioddefwyr. Mae'r holl waith yn adeiladol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'i adeiladu ar berthnasau cefnogol sy'n grymuso plant i gyflawni eu potensial a gwneud cyfraniadau cadarnhaol i gymdeithas.
- Annog cyfranogiad gweithredol plant, ymgysylltu a chynhwysiant cymdeithasol ehangach. Mae'r holl waith yn gydweithrediad ystyrlon â phlant a'u gofawyr.
- Hyrwyddo plentynod i ffwrdd o'r system gyfiawnder, gan ddefnyddio atal rhagbrofol, dargyfeirio a chyn lleied o ymyrraeth â phosib. Mae'r holl waith yn lleihau stigma o gyswllt â'r system.

Mae'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau ymarfer hyn yn ymdrechu nid yn unig i atal troseddu ond hefyd yn cynnig amddiffyniad i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd eisoes yn y system gyfiawnder.

Mae gan bob gweithiwr proffesiynol gyfrifoldeb i sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol (gan gynnwys cyfathrebu a rhyngweithio, gwybyddiaeth a dysgu ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl) a gyflwynir gan blant mewn gofal neu'r rhai a niweidiwyd gan ddigwyddiad yn cael eu nodi, eu cydnabod a'u cyfeirio wrth reoli'r ymateb i'r ymddygiad.

Rhaid i asiantaethau gydnabod rôl hanfodol ymyrraeth ac atal cynnar wrth leihau troseddu. Rhaid i leoliad y plentyn ddiwallu ei anghenion a nodwyd gan y bydd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at yr ataliad hwn.

Dylai dulliau adferol fod yn bresennol ym mhob ymateb ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd yn fewnol ac yn y gymuned ehangach.

Lleoliadau mewn gofal

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Dylid cyfeirio polisi rheoli ymddygiad ysgrifenedig sy'n nodi mesurau rheoli, ataliad a disgyblaeth y gellir eu defnyddio, fel cynorthwyydd i ymatebion mewnol. Mae'n angenrheidiol bod pob digwyddiad o fewn lleoliadau yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau bod cofnodion gwybodus am y person ifanc ar gael, os bydd sefyllfa'n codi yn y dyfodol ble mae'r Heddlu'n cael eu galw.

Mae data Heddlu Dyfed-Powys yn nodi mai'r achosion mwyaf cyffredin i alwadau gan yr Heddlu yw trais gan berson ifanc a difrod troseddol.

Wrth fynd i'r afael â phob digwyddiad, dylai'r isod fod yn berthnasol:

- Mae angen i staff sydd yn y lleoliad gofal ystyried yr holl ffactorau sy'n berthnasol ar yr adeg wrth ystyried gweithredu.
- Dylid ystyried polisiâu hyfforddi a rheoli ymddygiad mewnol.
- Dylai ymgynghoriad gael ei gynnal gyda staff eraill ar ddyletswydd a rheolwyr wrth benderfynu ar gamau gweithredu. Dylid ystyried y gellir rheoli'r sefyllfa drwy'r Cynllun Gofal i'r person ifanc dan sylw a dylid cysylltu â'i Weithiwr Cymdeithasol ynghylch hyn.
- Dylid ystyried y cwestiwn bob amser ai presenoldeb yr Heddlu yw'r ymateb mwyaf effeithiol neu gymesur. Mewn sefyllfa lle ceir colled sylweddol o reolaeth yna efallai y bydd angen presenoldeb yr Heddlu. Os yw'r Heddlu'n bresennol ac yn trafod y digwyddiad gyda'r person ifanc, rhaid peidio â chymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd hynny'n arwain yn awtomatig at arestio'r person ifanc. Rhoddir sicrwydd, os yw trosedd wedi'i adrodd, yna bydd hyn, yn ddi-ffael, yn cael ei gofnodi felly yn unol â'r Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol.
- Dylid cytuno ar ganlyniadau i weithredoedd y person ifanc, dylid penderfynu ar hyn yn dilyn ymgynghori â chyd-weithwyr a, lle bo hynny'n briodol, y dioddefwr ac asiantaethau eraill; fel Plant Gofal Cymdeithasol, Heddlu a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid.
- Mae hawl y dioddefwyr i gynnwys yr Heddlu i'w barchu a'i gefnogi.

Rhaid gwneud pob ymdrech, os yw'n briodol, i sicrhau bod y plentyn yn cael ei gadw o fewn eu 'cartref' i sicrhau eu bod yn gallu elwa o wasanaethau lleol a ddarperir iddynt.

Ymwneud â'r heddlu

Fel rhan o'r canllawiau ymarfer hyn, bydd yr asiantaethau sydd wedi cofrestru yn ymrwymo i ddad-ddwysáu digwyddiadau a rheolaeth fewnol o bob sefyllfa, nes cyrraedd y trothwy ar gyfer ymwneud â'r Heddlu - h.y. mae lefel annerbyniol ac anhydrin o risg i ddiogelwch personol.

Dylai cynnwys yr heddlu fod yn ddewis olaf wrth ddelio â digwyddiadau'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Lle bynnag y bo'n briodol, dylid mynd at weithwyr proffesiynol eraill i ddelio ag ymddygiadau heriol drwy gyfrwng disgresiwn a dargyfeirio megis addysg anffurfiol, defnyddio sancsiynau goddefedig a chyfiawnder adferol.

Lle mae digwyddiadau a all arwain at ganlyniadau difrifol fel potensial am anaf difrifol, niwed difrifol neu golled ariannol ddifrifol; cydnabyddir y bydd angen ymateb gan yr Heddlu ar ddigwyddiadau o'r fath.

Mae'r siart llif isod yn esbonio'r broses a ddilynir gan yr Heddlu unwaith y bydd galwad wedi'i dderbyn:

Cynnal asesiad THRIVE o amgylch gweithredu ac anghenraid i fynychu



Os oes angen presenoldeb yna mae'r swyddog, drwy'r ystafell reoli, yn cael yr holl wybodaeth gan gynnwys y dioddefwr (os o gwbl), lleoliad, y person dan amheuaeth ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol trwy systemau cenedlaethol a lleol

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer



Swyddogion ymateb i gyrraedd y safle o dan ba bynnag feini prawf ymateb yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol gan ganolfan gyfathrebu'r Heddlu.



Ymateb i ddad-ddwysáu sefyllfa a lliniaru ffactorau bygythiad, risg a niwed



Staff gofal i roi Ffurflen Gyswllt i'r Swyddog



Swyddog i ddefnyddio'r ffurflen a'r wybodaeth berthnasol i gael gwybod yr amgylchiadau a sefydlu a oes unrhyw droseddau wedi digwydd



Os yw trosedd wedi digwydd yna bydd yn cael ei gofnodi yn unol â'r Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol



Swyddog i wneud penderfyniad ar ddatrysiaid priodol.
Bydd hyn yn canolbwyntio ar ddull 3D:
Disgresiwn, oedi a dargyfeirio yn y lle cyntaf



Arestio dim ond pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol ac os bodlonir y prawf angenrheidiol.

Disgresiwn, dargyfeirio ac oedi yn well.

Dylid dilyn prosesau sydd ar waith gan y Cwmnstabiolaeth gan yr holl swyddogion a ddemyddir.


Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Er mwyn gwneud penderfyniadau, dylid cyflwyno Ffurflen Gyswilt yr Heddlu wedi'i chwblhau i'r swyddog (Atodiad 1). Mae arfer da yn caniatáu cyfnod oeri, er mwyn i benderfyniadau gael eu cyrraedd yn araf a'u llywio gan lu o weithwyr proffesiynol.

Dylid cyflwyno Ffurflen Gyswilt yr Heddlu i Ringyll y Ddalfa os gwneir penderfyniad i'w arestio a'i huwchlwytho i'r ffeil achos ynghyd â'r rhestr wirio 10 pwynt Gwasanaeth Erlyn y Goron (Atodiad 2).

Dull 3D

Cyn i unrhyw un arestio plentyn neu berson ifanc, dylid ystyried disgresiwn, dargyfeiriad neu oediad fel y manylir yn y darlun isod:



Trosglwyddiadau a Chadw

Mae plant sy'n cael eu dwyn i'r ddalfa mewn sefyllfa arbennig o fregus; nid yn unig yn rhinwedd eu hoedran, ond oherwydd y gallai'r amgylchiadau a ddaeth â nhw i gysylltiad â'r heddlu fod wedi eu gadael yn ofidus iawn. Efallai eu bod dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, yn gwella o drawma diweddar neu'n dod i delerau â digwyddiadau sydd wedi niweidio perthynas werthfawr a fydd yn cael effaith barhaol ar eu bywydau. O ystyried gallu llai plentyn, ni fyddant mewn sefyllfa gref i ymdopi â natur ddirdynol a llethol yr amser a dreulir mewn dalfa. Mae'r gyfraith eisoes yn cydnabod nad yw celloedd heddlu yn lle addas i blant. Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) yn mynnu, lle mae mechnïaeth yr heddlu yn cael ei gwrthod, fod rhaid dod â'r person ifanc o flaen y llys cyntaf sydd ar gael. Mewn rhai achosion, gallai hyn fod ar yr un diwrnod, ond bydd ymddangosiad yn y llys fel arfer y diwrnod canlynol.

Os yw plentyn rhwng 10 a 17 oed yn cael ei gyhuddo o drosedd ac mae mechnïaeth yn cael ei gwrthod iddo, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r heddlu (ac eithrio o dan amodau penodol) wneud trefniadau i'r person ifanc gael ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol. Mae'r ddyletswydd statudol yn un ddwyochrog ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 'dderbyn a darparu llety i blant' o dan y ddarpariaeth hon. Yn 1991, cadarnhaodd y DU Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) gan gytuno bod y ddalfa'n cael ei defnyddio "dim ond fel y dewis olaf ac am y cyfnod priodol byrraf o amser". Cafodd hyn ei gryfhau ymhellach yng Nghymru gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n gosod dyletswydd i sicrhau sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHPA (CCUHPA).

Ar ôl cadw person ifanc mewn unrhyw Ddalfa'r Heddlu yng Nghymru, dylid ystyried y canllawiau isod gan Lywodraeth Cymru bob amser ym mhob cam:

Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer rheolaeth a throsglwyddiad priodol o Blant a Phobl Ifanc gan yr Heddlu ac Awdurdodau Lleol.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer




transfer-of-children-and-young-people-by-

Mae'r diagram isod yn tynnu sylw at y prosesau ar gyfer yr Heddlu a'r Awdurdodau Lleol o amgylch trosglwyddo plant o ddalfa'r Heddlu:

Map Proses ar gyfer trosglwyddo plant a phobl ifanc gan yr heddlu a'r awdurdodau lleol.

APPROVED

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer



¹ The legal duty for a local authority to provide accommodation under Section 21 of the Children Act 1989 has been replaced by Section 77 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014

Mae Awdurdodau Lleol Dyfed-Powys a Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi cytuno i gydymffurfio â 'chanllawiau Cymru Gyfan ar gyfer rheoli a throsglwyddo priodol plant a phobl ifanc gan yr Heddlu a'r Awdurdodau Lleol dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984' (gweler yr atodiad am y canllawiau llawn).

Mae'r canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol a'r Heddlu gyntuno ar drefniadau lleol wrth adolygu achosion lle na chafwyd hyd i letyl priodol i blant.

Gan gyfeirio'n benodol at Adrannau 8, 9 a 10 o'r canllawiau uchod.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Ym mhob un o'r pedwar rhanbarth mae Grŵp Gweithredol Lleol sydd i gyd yn adrodd i'r grŵp diogelu rhanbarthol. Yn y cyfarfodydd hyn bydd Uwch gynrychiolwyr o ystod o bartneriaid, gan gynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Addysg a'r Trydydd Sector.

Mewn achosion lle nad yw'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol wedi gallu dod i gytundeb, gan arwain at beidio â darparu llety i'r plentyn, gellir codi'r mater a thrafod yn y cyfarfodydd hyn. Yr unig nod o gydweithio yw sicrhau nad yw plant yn cael eu gadael dros nos yng ngorsaf yr heddlu pryd bynnag y bo modd.

Yn ystod y cyfarfod, bydd cynrychiolwyr yn adolygu'r achos yn seiliedig ar y wybodaeth atgyfeirio a gyflwynir ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a gafwyd o gofnodion asiantaethartner. Bydd unrhyw drafodaethau neu ganlyniadau o'r cyfarfod hwn yn cael eu cofnodi yn y cofnodion a bydd unrhyw ddysg neu gamau yn cael eu dogfennu a'u lledaenu i'r asiantaethau perthnasol.

Yn ogystal â hyn, bydd Heddlu Dyfed-Powys yn darparu data i CYSUR bob chwarter yn adrodd am unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg ar draws y rhanbarth.

Proses atgyfeirio Dyfed-Powys i'r Grŵp Gweithredol Lleol ar gyfer plant yn cael eu gadael dros nos mewn gorsaf heddlu

Ni ddaethpwyd i gytundeb rhwng Swyddog y Ddalfa a'r Gweithiwr Cymdeithasol am fechnïaeth a'r angen dilynol am lety diogel neu lety nad yw'n ddiogel.

Mae'r mater i'w ddwysau i Uwch Swyddog yr Heddlu ac Uwch Reolwr Gwasanaeth Plant (mae hyn hefyd yn berthnasol i Du Allan i Oriau)

Os nad yw'r mater wedi'i ddatrys o hyd ac mae gofyn i'r plentyn dreulio'r noson mewn gorsaf heddlu.

Dylai'r Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol gofnodi eu rhesymau ar Ffurflen Atgyfeirio'r Grŵp Gweithredol

Mae'n bwysig bod yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ill dau yn cwblhau ffurflen atgyfeirio'r Grŵp Gweithredol Lleol ac e-bostio'r ffurflen at:

Powys 01874 612054 safeguarding.unit@powy.gov.uk

Pembrokeshire 01437 776444 ccat@pembrokeshire.gov.uk

Ceredigion 01545 574000 dds.log.coordination@cereddigion.gov.uk

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Bydd y digwyddiad i'w glywed yn y Grŵp Gweithredol Lleol a bydd angen i'r cyfeiriwr/wyr gyflwyno'r achos. Bydd unrhyw ddysg yn cael ei ledaenu i'r holl bartneriaid perthnasol.

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn darparu data chwarterol i'r grŵp diogelu rhanbarthol sy'n nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg.

Penderfyniad i Erlyn

Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol:

- I'r plant a'r bobl ifanc hynny nad yw dargyfeiriad ffurfiol yn opsiwn iddynt, mae'n dal yn bwysig sicrhau bod erlyniad ond yn cael ei ddwyn mewn amgylchiadau lle mae hyn yn ymateb priodol a chymesur.
- Dylid bob amser ystyried gwarediadau anffurfiol megis cynadledda cyfiawnder adferol, ad-daledigaeth, contractau ymddygiad derbyniol a mesurau disgyblu gan y cartref yn gyntaf, yn enwedig o 10 oed ac i fyny, o ystyried mai dyma oes gyfreithiol cyfrifoldeb troseddol. Bydd contractau ymddygiad yn contract ysgrifenedig rhwng person ifanc a'u gofalwr, sy'n amlinellu rhwymedigaethau ymddygiad y plentyn wrth gyflawni telerau'r contract, yn ogystal â rhwymedigaethau'r gofalwyr unwaith y bydd y person ifanc wedi bodloni eu cytundeb.

Gellir gweld canllawiau pellach ar warediadau'r tu allan i'r llys yma:



OOD guide.pdf

- Bydd Arbenigwr ar Droseddwyd leuenctid yn cynnal yr adolygiadau mawr o ffeiliau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ac yn gwneud pob penderfyniad mawr mewn perthynas â'r ffeiliau hynny.

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

- Mae'n hanfodol ym mhob penderfyniad i erlyn, ar ôl ystyried y dystiolaeth, fod erlynwyr yn nodi ac yn penderfynu ar y ffactorau budd cyhoeddus perthnasol o blaid ac yn erbyn erlyn. Os oes digon o dystiolaeth i sefydlu posibilrwydd realistig o euogfarn, bydd erlyniad fel arfer yn dilyn oni bai bod yr erlynnydd yn fodlon bod ffactorau budd cyhoeddus yn tueddu yn erbyn erlyniad, sy'n drech na'r rhai sy'n tueddu o blaid.
- Mae'n bwysig, mewn achosion priodol, i gael digon o wybodaeth am amgylchiadau cartref y plentyn a'i gefndir o ffynonellau fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Troseddu Ieuencid, a gwasanaethau plant, cyn gwneud y penderfyniad i erlyn ai peidio. Dylid cael hyn trwy gwblhau a chynnwys y cynllun 10 pwynt gyda'r ffeil achos.

Gallai tystiolaethu rhywfaint o ymyraethau neu warediadau eraill sydd wedi mynd i'r afael â'r materion allweddol fodloni'r prawf budd cyhoeddus o bosibl, o blaid gwaredu/erlyn ffurfiol. Mewn theori, mae'n dal yn bosibl os bu mwy nag un gwaredu anffurfiol eisoes **OND** mae'r defnydd parhaus o warediadau anffurfiol yn awgrymu nad yw'r risg o droseddu yn y dyfodol yn cael ei leihau a allai gael ei grybwyll mewn gwirionedd fel rheswm pam y byddai'r prawf budd cyhoeddus nawr yn cael ei fodloni gan waredu/erlyn mwy ffurfiol.

Amodau mechnïaeth ar gyfer plant gofal a rhai sy'n gadael gofal

Gall y llys atodi amodau i fechnïaeth er mwyn bodloni rhai amcanion statudol, wedi'u teilwra i'r achos unigol: i atal troseddu, sicrhau presenoldeb yn yr ymddangosiad llys nesaf, atal ymyrraeth â chwrs cyfiawnder a sicrhau cwblhau adroddiadau i'r llys.

Dylai pob plaid sydd wedi cofrestru ar gyfer y canllawiau ymarfer hyn geisio sicrhau gan unrhyw sylwadau a wnaed i'r llys mewn perthynas ag amodau mechnïaeth, nad yw plant gofal a rhai sy'n gadael gofal yn cael eu heffeithio'n andwyol gan eu statws fel y cyfryw. Dylid gofyn i'r llys, ar bob achlysur, fod amodau mechnïaeth yn cael eu gosod ar blant gofal a rhai sy'n gadael gofal, i egluro maint a therfynau'r cyflwr yn llawn. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd amod i gydymffurfio â rheolau a rheoliadau cartrefi gofal, amod i breswyllo fel y cyfarwyddwyd gan yr Awdurdod Lleol neu amod i fyw a chysgu fel y cyfarwyddwyd yn cael ei osod.

Swyddfa Dyfed-Powys

Gweledigaeth

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni eu potensial a

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas.

Datganiad cenhadaeth

Bydd Swyddfa Dyfed-Powys yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u dioddefwyr i atal aildroseddu ac i ddargyfeirio plant a phobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol

Egwyddorion Allweddol

Dylai pobl ifanc gael eu trin fel plant a phobl ifanc yn gyntaf a throseddwyr yn ail, sy'n golygu y dylai pob ymateb i (ail)droseddu fod yn gymesur a, lle bo'n briodol, osgoi troseddu.

Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu trin fel unigolion, mewn system sydd ddim yn cymryd yr agwedd 'un maint sy'n gweddu i bawb' a sicrhau bod llais y plentyn/person ifanc wrth wraidd unrhyw ymwneud â nhw.

Defnyddir ymyrraeth briodol a chynnar i leihau troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc ledled Dyfed-Powys. Dylai pob ymwneud â phobl ifanc gael ei gweld fel cyfle i ymyrryd ac i ddiogelu eu lles.

Ystyrir diogelu'r cyhoedd a hyder y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau a, lle'n briodol, clywir llais y dioddefwr.

Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd rhwng partneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau

ar gyfer plant, pobl ifanc a dioddefwyr. Bydd pob partner yn cymryd cyfrifoldeb cyfunol am ddarparu ymyriadau cytûn ac am geisio sicrhau bod plant/pobl ifanc yn cael eu (hail)integreiddio i wasanaethau lleol a'u cymunedau

Cymryd dull cyson a chytbwys tuag at sicrhau canlyniadau da i blant a phobl ifanc ledled y rhanbarth, sy'n rhoi pob cyfle iddynt gadw rhag troseddu, wrth gynnal uniondeb y system cyfiawnder ieuenctid.

Penderfyniad i Ddargyfeirio o'r Llys

Os codir y cwestiwn o addasrwydd i ddargyfeirio yn y llys ac fe'i hystyris yn briodol gan yr Erlynydd, dylid gohirio'r achos am gyfnod byr ar gyfer asesiad gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Lleol. Yr amserlen y cytunwyd arni at y diben hwn yw 21 diwrnod. Yn y lleiafrif hynny o achosion lle mae'r person ifanc yn methu ag ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, byddai'r mater yn cael ei ddychwelyd i'r llys i ystyried erlyniad - felly, mae'n amlwg bod cymhelliant sylweddol i'r plentyn ymgysylltu.

Yn y pen draw, bydd yr Arbenigwr ar Droseddwy'r Ieuencid a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn trafod ystyriaethau ar gyfer terfynu achosion gyda'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

Lle mae'r penderfyniad i erlyn wedi ei wneud gan Arbenigwr ar Droseddwy'r Ieuencid ac mae budd y cyhoedd wedi ei benderfynu o blaid erlyn, ni fyddai fel arfer yn cael ei ystyried yn briodol i ohirio'r achos i ystyried dargyfeirio ymhellach oni bai bod newid sylweddol wedi bod mewn amgylchiadau neu wybodaeth sylweddol nad oedd yn hysbys i'r Arbenigwr ar Droseddwy'r Ieuencid yn dod i'w sylw.

Mae canllawiau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn dweud bod yna achlysuron pan fo person ifanc wedi'i gyhuddo, ond mae erlynydd yn penderfynu y dylid gohirio'r achos er mwyn ystyried gwaredu tu allan i'r llys. Mae derbyn euogrwydd yn hanfodol cyn y gellir rhoi Rhybudd Ieuencid neu Rybudd Amodol Ieuencid a dim ond mewn **amgylchiadau eithriadol** y bydd person ifanc sydd wedi ei gyhuddo'n gywir yn derbyn gwaredu o'r fath.'

Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd y prosesau gwneud penderfyniadau sy'n digwydd cyn i blant gofal a'r rhai sy'n gadael gofal gael eu cyfeirio i'r llys.

Cydymffurfiaeth

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Disgwylir i'r holl lofnodwyr gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y canllawiau ymarfer hyn.

Os bydd yr Heddlu yn bresennol, bydd Ffurflen Gyswilt yr Heddlu yn cael ei llenwi gan y darparwr preswyl; ni fydd Swyddogion yn gadael y cyfeiriad heb y gwaith papur perthnasol.

Bydd y canllawiau ymarfer hyn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i'r holl asiantaethau dan sylw.

Llofnodwyr

Sefydliad	Llofnod
Cyngor Sir Penfro	 Darren Mutter, Pennaeth Gwasanaethau Plant

Atodiadau

Atodiad 1: Ffurflen Gyswilt yr Heddlu

Pan fo'n bosib ac yn ddiogel i wneud hynny, dylid trafod pob digwyddiad gyda Rheolwr. Dylid delio â phob digwyddiad nad yw'n ddifrifol heb fod angen ymwneud â'r Heddlu.

Os gelwir yr Heddlu, dylid llenwi'r ffurflen hon ym MHOB achos.



Police Contact
Form.pdf

- Rhaid i gartrefi gofal sicrhau bod digon o'r ffurflenni hyn ar gael i'w cwblhau a'u trosglwyddo i Swyddogion yr Heddlu wrth iddynt gyrraedd. Os nad yw hyn yn briodol ar y pryd, yna cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny.
- Rhaid i ofalwyr maeth hefyd roi'r ffurflen gyswilt i'r Heddlu a dylair gweithiwr cymdeithasol penodedig ar gyfer y plentyn ddarparu copïau o'r ffurflen hon a'r canllawiau i'r gofalwr.
- Rhaid i Swyddogion yr Heddlu sicrhau bod Ffurflen yn cael ei chasglu ar ôl mynychu digwyddiad mewn Cartref Gofal.

I'w chwblhau gan Gartref Plant			
Enw'r person ifanc:			
Dyddiad Geni:		Oedran:	

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

Cyfeiriad:			
Gweithwyr Cymdeithasol:			
A yw'r Person Ifanc yn agored i Dimau Troseddu Ieuenctid?	Ydy	Nac ydy	
Dyddiad y Digwyddiad:		Amser y Digwyddiad:	
Crynodeb o'r Digwyddiad			
Dull o ddad-ddwysáu cyn presenoldeb yr Heddlu			
A yw ymateb yr heddlu'n angenrheidiol?	Ydy	Nac ydy	
Rheswm dros gysylltu â'r heddlu			
Cyn cysylltu â'r Heddlu (999/101), a geisiwyd cyngor ac arweiniad gan unrhyw weithiwr proffesiynol arall a oedd yn rhan o'r broses:			
Tîm Troseddau Ieuenctid	Gweithwr Cymdeithasol	Tîm Plismona'r Gymdogaeth	Arall – nodwch os gwelwch yn dda
Sylwadau gan Uwch Swyddog / Rheolwr y Cartref Plant:			
Enw:			Dyddiad:
Llofnod			
I'w gwblhau gan Swyddog yr Heddlu			
Enw'r swyddog sy'n bresennol:			

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru - Lleihau'r Broses o Droseddu Diangen gan Blant ac Oedolion Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal: Canllawiau Ymarfer

A fu trafod rhwng staff y cartref gofal a Swyddog yr Heddlu?	Do	Naddo
Nodwch y canlyniad, os gwelwch yn dda	Arestio	Gweithredu Anffurfiol
A oedd yr Heddlu a staff y cartref gofal yn gytûn am y penderfyniad?	Ie	Na
Os na, manylwch:		
Cynllun arfaethedig os cytunwyd ar gamau anffurfiol:		
Dyddiad:		

Awdurdodi Rhiant Corfforaethol Dirprwyedig

Rwy'n cytuno / anghytuno bod angen gweithredu ffurfiol gan yr heddlu mewn perthynas â'r drosedd uchod

Enw: (Rheolwr Cartref Gofal)			
Llofnod:		Dyddiad:	

Atodiad 2: Cynllun 10 Pwynt Gwasanaeth Erlyn y Goron



10%20Point%20Che
cklist.doc

I'w gwblhau a'i gyflwyno ar ffeil ar gyfer pob achos sy'n ymwneud â phlentyn gofal

ISSUE 15 Page 6



10 POINT CHECKLIST FOR OFFENCES IN CHILDREN'S HOMES

HAVE YOU CONSIDERED?

1	Disciplinary Policy of Children's Home?	
2	Why have the police been involved and is it as agreed in the policy?	
3	Any informal action /disciplinary action already taken	
4	Any apology/reparation	
5	Victims Views	
6	Social Worker Views	
7	Care Plan for Looked After Child (If necessary and lac agrees)	
8	Recent behaviour/incidents re looked after child	
9	Information about incident from looked after child (interview or other)	
10	Aggravating and Mitigating Features	